Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Llanymddyfri

Queensway
Llanymddyfri
Sir Gaerfyrddin
SA20 0EE

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Llanymddyfri

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Coleg Llanymddyfri |
| Statws y perchennog | Cwmni elusennol cyfyngedig trwy warant |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol bob oed annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 215 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 119 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/03/2025 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Coleg Llanymddyfri, a elwir yn Llandovery College, yn ysgol breswyl a dydd gydaddysgol annibynnol a sefydlwyd ym 1848. Mae wedi'i leoli yn nhref Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 18 oed.

Mae 215 o ddisgyblion ar y gofrestr, ar hyn o bryd. Mae 30 o ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol. Yn yr ysgol uwchradd, mae 185 o ddisgyblion, gan gynnwys 91 yn y chweched dosbarth. Mae tua thri o bob pump o ddisgyblion yn yr ysgol yn fechgyn, er bod y cydbwysedd yn amrywio mewn gwahanol grwpiau oedran ar draws yr ysgol.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r ardal leol ehangach sy'n ymestyn o Lanelli, Rhydaman a Llanbedr Pont Steffan i Sir Gaerfyrddin tuag at Sir Benfro. Mae tua hanner y disgyblion yn ddisgyblion preswyl ac yn dod o Gymru, rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thramor. Mae Coleg Llanymddyfri yn addysgu disgyblion ag ystod eang o alluoedd.

Penodwyd y pennaeth presennol (Warden) yn 2019, ac yn ddiweddar, bu newidiadau mewn staff ar draws ystod o rolau uwch arweinyddiaeth.

## Crynodeb

Mae Coleg Llanymddyfri, a elwir yn Llandovery College, yn meithrin amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae gan ddisgyblion a disgyblion preswyl ymdeimlad cryf o deulu a chefnogaeth. Mae'r system dai ac ystod amrywiol o weithgareddau cyd-gwricwlaidd yn meithrin cyfeillach, gwaith tîm, a chystadleuaeth iach tra'n annog mynegiant creadigol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, wedi'u meithrin ar sail parch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr. Mae eu natur agos-atoch a'u hymrwymiad i lwyddiant disgyblion yn cyfrannu at awyrgylch lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Mae llawer o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gref, yn enwedig mewn cyrsiau arholiadau, sy'n ysgogi hyder mewn disgyblion am eu harbenigedd. Mae gwersi wedi eu cynllunio'n dda, ar y cyfan, ac adnoddau wedi'u dylunio i gynnal y dysgu yn effeithiol. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn addasu eu cyfarwyddyd i ymateb i ddisgyblion, sy'n helpu gwneud y gorau o gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae cynlluniau gwersi rhy gyfarwyddol yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Yn yr ysgol baratoadol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson ar draws y cwricwlwm, wedi'i gefnogi gan ddisgwyliadau clir a gweithgareddau difyr. Mae'r defnydd effeithiol o athrawon arbenigol yn ymestyn y cwricwlwm, yn enwedig yn y celfyddydau mynegiannol ac mewn ieithoedd tramor modern.

Yn yr ysgol hŷn, mae'r addysgu mwyaf effeithiol yn cynnwys holi medrus ac adborth llafar sy'n annog meddwl beirniadol a thrafodaeth. Daw llawer o ddisgyblion yn fedrus o ran gwrando'n weithredol a chyfrannu'n ystyrlon at drafodaethau dosbarth. Fodd bynnag, mewn gormod o wersi, mae'r holi ac ymatebion disgyblion yn arwynebol. O ganlyniad, collir cyfleoedd i ymestyn dealltwriaeth disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnal ymrwymiad cryf i gynwysoldeb, gan sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd amrywiol yn teimlo'u bod yn cael eu parchu. Fodd bynnag, er bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am faterion moesegol a moesol, nid yw eu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae polisïau a hyfforddiant diogelu addas ar waith ac yn cael eu deall gan staff. Fodd bynnag, mae angen gwella gweithdrefnau recriwtio mwy diogel a'r drefn o ran cadw cofnodion. Er bod yr ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus ag ychydig o faterion a godwyd yn ystod yr arolygiad, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cydymffurfio â’r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae’r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni’r rhan fwyaf o’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, dylai’r perchennog:

- sicrhau bod staff sy’n cynllunio, yn cyflwyno, yn asesu neu’n adrodd ar addysg disgyblion wedi cofrestru gyda CGA [20(2)(c)]
- sicrhau bod pob un o’r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y tair blynedd ddiwethaf [23(a)]
- sicrhau bod yr holl wiriadau cyn-cyflogaeth gofynnol yn cael eu cwblhau cyn penodi unigolyn [20(3)]

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024

A2. Parhau i wella cysondeb ac ansawdd yr addysgu a'r dysgu

A3. Cryfhau ymagweddau at gofnodi statudol i gefnogi goruchwyliaeth arweinwyr a gweithrediad yr ysgol

A4. Cryfhau dealltwriaeth disgyblion o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Gan nad yw'r ysgol yn bodloni'r safonau ar gyfer cofrestru, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r perchennog gyflwyno cynllun gweithredu o fewn cyfnod amser penodol. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu'r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni'r safonau, a'r raddfa amser y bydd yn cwblhau pob cam oddi mewn iddi. Wedyn, gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gefnogi'r ysgol trwy broses wella.

## Prif werthusiad

Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu croesawu i gymuned yr ysgol, ac mae disgyblion preswyl yn arbennig yn amlygu eu hymdeimlad cryf o deulu a chefnogaeth. Mae'r system dai, ynghyd â gweithgareddau fel rygbi, perfformiadau drama ac ystod eang o weithgareddau cyd-gwricwlaidd, yn meithrin cyfeillach, gwaith tîm, a chystadleuaeth iach. Mae digwyddiadau fel yr Eisteddfod yn darparu cyfleoedd ar gyfer mynegiant creadigol, sy'n cryfhau natur gynhwysol a dathliadol y Coleg.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r athrawon yn datblygu perthnasoedd gwaith cryf ac effeithiol gyda disgyblion, yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr. Mae athrawon yn gefnogol, yn gyfeillgar ac yn agos-atynt. O ganlyniad, mae disgyblion yn credu bod athrawon yn poeni am eu lles pennaf nhw.

Mae llawer o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac yn dangos dealltwriaeth hynod ddatblygedig o ofynion cyrsiau arholiadau, lle bo'n berthnasol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o hyder yn yr athrawon hyn fel arbenigwyr.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio cynllunio manwl ac adnoddau cysylltiedig i sgaffaldio gwersi a dilyniannau o wersi. Yn y gwersi gorau, mae'r cynllunio hwn yn caniatáu am hyblygrwydd, ac mae athrawon yn addasu eu darpariaeth mewn amser real, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae gweithgareddau dysgu a gynlluniwyd ac adnoddau yn rhy gyfarwyddol. Pan fydd hyn yn digwydd, nid yw pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent neu y dylent ei wneud.

Mae disgyblion yn yr ysgol baratoadol yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu eu gwybodaeth a'u medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn huawdl ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae hyn oherwydd bod eu hathrawon yn cymryd amser i esbonio cysyniadau a syniadau newydd yn glir. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb disgyblion. Mae athrawon yn darparu cymorth ychwanegol a ystyriwyd yn ofalus ar gyfer unrhyw ddisgyblion sydd ei angen, er mwyn iddynt allu manteisio ar y cwricwlwm.  Mae defnyddio athrawon arbenigol i gyflwyno cwricwlwm amrywiol, er enghraifft i gefnogi ymglymiad disgyblion yn y celfyddydau mynegiannol neu mewn ieithoedd tramor modern, yn gryfder penodol. Yn ychwanegol, mae'r ystod o ddarpariaeth gyd-gwricwlaidd yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer disgyblion mwy abl, er enghraifft trwy 'ymestyn a her'. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, roedd disgyblion yn rhoi'r gorau i ymgysylltu pan roedd gweithgareddau'n para'n rhy hir a ddim yn ddigon heriol i gynnal eu diddordeb.

Yn y gwersi gorau ar gyfer disgyblion yr ysgol hŷn, mae athrawon yn modelu gwrando gweithredol yn hynod effeithiol. Mae eu defnydd o adborth llafar yn gryfder yn y ddarpariaeth. Trwy ddefnyddio cwestiynau agored a threiddgar, maent yn herio atebion disgyblion ac yn ailgyfeirio trafodaeth yn fedrus i ysgogi cynnydd. Anogir disgyblion i ymestyn eu dealltwriaeth trwy ddatblygu a mireinio'u hatebion. O ganlyniad, ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn wrandawyr medrus hefyd, sy'n rhoi sylw gweithredol i'w hathrawon a'u cyfoedion, ac yn adeiladu ar gyfraniadau disgyblion eraill i symud y dysgu ymlaen. Fodd bynnag, mewn gormod o wersi, mae cwestiynau'r athrawon yn gofyn am ymatebion byr, annatblygedig gan ddisgyblion. Ymhellach, mewn ychydig iawn o wersi, roedd diffyg cyflymdra a her i weithgareddau a dysgu. O ganlyniad, collir cyfleoedd i fesur ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion.

Mae rolau arweinyddiaeth disgyblion yn ddyheadol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at welliant yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob tŷ, yn cyfarfod bob wythnos i drafod materion allweddol, gan gynnwys mentrau elusennol a digwyddiadau ysgol. Mae disgyblion yn ymgysylltu'n weithredol â gwneud penderfyniadau, er enghraifft cyflwyno hoci ar gyfer bechgyn, yn ogystal â merched.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol gydag ymrwymiad cryf i gynwysoldeb. Mae staff yn mynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad gwahaniaethol yn brydlon. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, gan gynnwys y rhai o gymunedau LHDTC+, a gwahanol gefndiroedd crefyddol neu ethnigrwydd, yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae disgyblion yn dangos amgyffrediad moesol cryf ac ymwybyddiaeth o faterion moesegol. Er bod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am faterion moesegol a moesol, nid yw eu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu tuag at ddiwylliant diogelu cadarn. Mae polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant addas ar waith ac yn cefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol. Mae pob un o'r staff yn glir am y prosesau ar gyfer adrodd am unrhyw bryderon, ynghylch disgyblion a staff, fel ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau i sicrhau bod staff newydd a benodir yn cael eu recriwtio'n ddiogel yn drylwyr. Nid yw gwiriadau parhaus i sefydlu addasrwydd parhaus staff wedi mynd bob yn gam â newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth, ac nid ydynt yn bodloni gofynion statudol. At ei gilydd, nid yw'r drefn ar gyfer cadw cofnodion ar draws yr ysgol yn ddigon cadarn a thrylwyr i sicrhau bod pob agwedd ar waith yr ysgol yn cael ei chynnal yn gydlynol ac yn effeithlon.

Codwyd ychydig o faterion gydag arweinwyr yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad. Sicrhaodd y gwaith hwn fod yr ysgol yn cydymffurfio â llawer o'r Safonau Ysgolion Annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â phob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o arolygiad blaenorol

### A1. Gwella ansawdd yr addysgu, yn benodol i herio disgyblion mwy abl, gan ddysgu o arfer orau yn yr ysgol

Ers adeg yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi ystyried y strwythurau, y prosesau a'r diwylliannau angenrheidiol sydd eu hangen i yrru a chynnal gwelliannau mewn addysgu a dysgu. Mae ystyriaethau o amgylch recriwtio a rolau staff wedi bod yn ganolog i'r gwaith hwn.

Er mis Medi yn y flwyddyn academaidd bresennol, mae uwch arweinwyr a benodwyd yn ddiweddar wedi gwneud cynnydd cyflym yn sefydlu diwylliant proffesiynol o welliant ar y cyd. Mae hyn wedi canolbwyntio ar nodi a rhannu'r arfer addysgu fwyaf effeithiol, ochr yn ochr â datblygu dysgu proffesiynol wedi'i dargedu'n strategol.

Sefydlwyd prosesau sicrhau ansawdd ffurfiol mwy trylwyr. Er enghraifft, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cynnal arsylwadau ac yn craffu ar waith ar y cyd. Mae tystiolaeth ar gyfer ansawdd ac effaith yr addysgu a'r dysgu yn eitem sefydlog mewn cyfarfodydd rheolaeth llinell a chyfarfodydd adrannol ar bob lefel, ac mae dysgu proffesiynol wedi'i gysylltu'n agos â chanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ac â blaenoriaethau datblygu unigol. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn datblygu prosesau newydd i olrhain a monitro cyrhaeddiad.

O ganlyniad, mae'r ysgol wedi dechrau datblygu a dangos dealltwriaeth wybodus, ar y cyd, o ansawdd a chysondeb arfer addysgu. Mae'r darlun hwn wedi galluogi uwch arweinwyr i nodi ac asesu amrywioldeb yn y ddarpariaeth yn gywir, a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol wedi rhoi ystod o gyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol priodol ar waith, gan gynnwys system hyfforddi a mentora cyfoedion. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith, naill ai ar amrywioldeb yr addysgu neu ar ddeilliannau disgyblion.

### A2. Sicrhau bod prosesau cynllunio gwelliant yr ysgol yn cynnwys ffocws clir ar effaith ei darpariaeth ar gynnydd a lles disgyblion

Er mis Medi 2024, mae arweinwyr wedi cyflwyno ymagweddau newydd at sicrhau ansawdd yr addysgu yn yr ysgol. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer arfer ystafell ddosbarth effeithiol ac maent wedi ei rhannu â staff.

Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu gwaelodlin gywir o gysondeb ac ansawdd addysgu yn yr ysgol trwy gwblhau cyfres o arsylwadau addysgu a chraffu ar waith. Gwnaed y gwaith hwn gydag arweinwyr canol i ddatblygu eu capasiti i gyfrannu'n gywir at hyn a gwaith gwella

ehangach. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ar draws yr ysgol ddealltwriaeth ar y cyd o arfer ystafell ddosbarth effeithiol a'r ymagwedd newydd at sicrhau ansawdd yr addysgu.

Trwy ddefnyddio eu harsylwadau o addysgu, mae arweinwyr yn nodi 'hierarchaeth o gamau gweithredu' i athrawon unigol eu mireinio. Caiff y rhain eu trefnu yn ôl eu blaenoriaeth, a chânt eu trafod gyda staff trwy 'sgyrsiau hyfforddi' anffurfiol a ffurfiol. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn y gellir eu holrhain. Ymhellach, mae arweinwyr wedi dechrau craffu ar eu harsylwadau i nodi themâu cyffredin o fewn addysgu, ac yn alinio ffocws sesiynau datblygiad proffesiynol staff bob wythnos i fynd i'r afael â nhw, lle bo'n briodol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r gwaith hwn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'i effaith ar ddeilliannau a chynnydd disgyblion.

Trwy ganolbwyntio'n gyntaf ar sicrhau cefnogaeth staff i'r ymagwedd newydd hon, mae arweinwyr yn anelu at feithrin ymagwedd ar y cyd at atebolrwydd am sicrhau ansawdd. Mae cofnodion o arsylwadau addysgu yn dangos bod arweinwyr yn gwerthuso addysgu yn erbyn egwyddorion addysgegol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw monitro arweinwyr bob amser yn gwneud yn eglur beth yw'r cysylltiad rhwng arfer ystafell ddosbarth a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid yw pob un o'r arweinwyr yn deall effaith ymagweddau newydd at addysgu ar ddeilliannau disgyblion yn llawn eto.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/05/2025